

Rhagolygon economaidd ac ariannol

Diweddarwyd: Rhagfyr 2012

Diben

Mae'r papur hwn yn crynhoi'r rhagolygon diweddar ar gyfer economi'r DU¹ a sut y mae'r rhain wedi newid yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae'n cymharu rhagolygon y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (SCC) â rhagolygon annibynnol, lle bo hynny'n bosibl. Caiff ei ddiweddarau ddwywaith y flwyddyn gyda rhagolygon yr SCC (mis Rhagfyr a mis Mawrth).

Cefndir y rhagolygon

Sefydlwyd y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (SCC)² yn 2010 i roi dadansoddiad annibynnol o gyllid cyhoeddus y DU. Mae'r Swyddfa'n cynhyrchu adroddiad ddwywaith y flwyddyn yn rhoi'r rhagolygon ar gyfer yr economi a chyllid cyhoeddus.³ Cyhoeddwyd y rhagolwg diweddaraf⁴ ar y cyd â Datganiad yr Hydref y Canghellor,⁵ ar 5 Rhagfyr 2012.

Bydd Trysorlys ei Mawrhydi yn cyhoeddi adroddiad⁶ bob mis yn crynhoi'r rhagolygon ar gyfer economi'r DU a gyhoeddir gan sefydliadau annibynnol. Mae'r ffigurau hyn yn dangos rhagolygon tymor canolig cyfartalog y sefydliadau annibynnol.

¹ Nid oes rhagolygon cymharol ar gael ar gyfer Cymru.

² **Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidol** [fel ar 5 Rhagfyr 2012]

³ Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidol, **Economic and Fiscal Outlook** [Saesneg yn unig] [fel ar 5 Rhagfyr 2012]

⁴ Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidol, **Economic and Fiscal Outlook** [Saesneg yn unig] [fel ar 5 Rhagfyr 2012]

⁵ Trysorlys ei Mawrhydi, **Datganiad yr Hydref 2012**, 5 Rhagfyr 2012 [Saesneg yn unig] [fel ar 5 Rhagfyr 2012]

⁶ Trysorlys ei Mawrhydi, **Forecasts for the UK economy: A comparison of independent forecasts** [Saesneg yn unig] [fel ar 5 Rhagfyr 2012]

Twf CMC

Mae ffigur 1 yn dangos y rhagolygon ar gyfer twf cynnyrch mewnwladol crynswth (CMC)(rhagolygon yr SCC a'r rhagolygon cyfartalog annibynnol) rhwng 2012 a 2017.


Mae hyn yn dangos bod rhagolygon yr SCC, ers mis Mawrth 2012, wedi gostwng 0.9 pwynt canran ar gyfer 2012, 0.8 pwynt canran ar gyfer 2013, a 0.7 ar gyfer 2014 a 2015 a 0.3 pwynt canran arall ar gyfer 2016.

Mae'r rhagolygon annibynnol yn llawer llai optimistaidd na rhagolygon yr SCC, ac mae'r rhagolygon ar gyfer twf CMC 0.6 pwynt canran yn is ar gyfartaledd dros y cyfnod dan sylw o'u cymharu â'r rhagolygon annibynnol ym mis Chwefror 2012.

O'u cymharu â rhagolygon yr SCC ym mis Tachwedd 2011: Mae rhagolygon twf CMC wedi gostwng 0.8 pwynt canran ar gyfer 2012, a 0.9 pwynt canran yn 2013. Mae'r newidiadau ar gyfer 2014 a 2016 yr un fath â'r rheini a nodwyd ers mis Mawrth 2012.

O'u cymharu â rhagolygon yr SCC ym mis Tachwedd 2010, mae rhagolygon twf CMC lawer is, sef gostyngiad o 2.7 a 1.7 pwynt canran ar gyfer 2012 a 2013 yn ôl eu trefn.

Ffigur 1: Twf CMC (newid canrannol o'r flwyddyn flaenorol)



Ffynhonnell: Rhagolygon Economaidd a Chyllidol y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol a Rhagolygon Trysorlys EM ar gyfer economi'r DU

Chwyddiant - Mynegai Prisiau Defnyddwyr

Mae Ffigur 2 yn dangos y rhagolygon ar gyfer chwyddiant fel y'i mesurir gan y Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) (rhagolygon yr SCC a'r rhagolygon annibynnol) rhwng 2012 a 2017.


Mae hyn yn dangos, ers mis Mawrth 2012, nad yw rhagolygon yr SCC wedi newid ar gyfer 2012, a'u bod wedi cynyddu 0.6 pwynt canran ar gyfer 2013 a 0.3 pwynt canran ar gyfer 2014. Nid yw'r rhagolygon ar gyfer 2015 a 2016 wedi newid.

Mae'r rhagolygon annibynnol yn nodi cynnydd tebyg i ragolygon yr SCC, gyda chwyddiant, ar gyfartaledd, 0.1 pwynt canran yn uwch dros y cyfnod dan sylw o'i gymharu â'r rhagolygon annibynnol ar gyfer mis Chwefror 2012.

O'u cymharu â rhagolygon yr SCC ym mis Tachwedd 2011, mae'r rhagolygon ar gyfer chwyddiant CPI wedi cynyddu 0.1 pwynt canran ar gyfer 2012, 0.4 pwynt canran ar gyfer 2013, 0.2 pwynt canran ar gyfer 2014 ac nid yw'r rhagolygon ar gyfer 2015 wedi newid.

O'u cymharu â rhagolygon yr SCC ym mis Tachwedd 2010, mae'r rhagolygon ar gyfer chwyddiant CPI lawer uwch yn 2012, 2013 a 2014 (0.9, 0.5, a 0.2 pwynt canran yn ôl eu trefn), ond nid yw'r rhagolygon ar gyfer 2015 wedi newid.

Ffigur 2: Twf CMC (newid canrannol o'r flwyddyn flaenorol)



Ffynhonnell: Rhagolygon Economaidd a Chyllidol y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol a Rhagolygon Trysorlys EM ar gyfer economi'r DU

Diweithdra

Mae Ffigur 3 yn dangos y rhagolygon ar gyfer diweithdra fel y'i mesurir gan y nifer sy'n hawlio budd-daliadau ⁷ (rhagolygon yr SCC a'r rhagolygon annibynnol) rhwng 2012 a 2017.


Mae hyn yn dangos bod rhagolygon yr SCC, ers mis Mawrth 2012, wedi gostwng 60,000 ar gyfer 2012, ac wedi cynyddu ar gyfer pob blwyddyn arall: 20,000 ar gyfer 2013, 171,000 ar gyfer 2014, 280,000 ar gyfer 2015 a 340,000 ar gyfer 2016.

Mae'r rhagolygon annibynnol 140,000 yn is ar gyfer 2012, 180,000 yn is ar gyfer 2013 a 140,000 yn is ar gyfer 2014 o'u cymharu â'r rhagolygon annibynnol ym mis Chwefror 2012.

O'u cymharu â rhagolygon yr SCC ym mis Tachwedd 2011, mae'r rhagolygon ar gyfer y nifer sy'n hawlio budd-daliadau wedi gostwng 160,000 ar gyfer 2012 a 110,000 ar gyfer 2013. Mae'r rhagolygon wedi cynyddu ar gyfer pob blwyddyn arall, 20,000 ar gyfer 2014, 180,000 ar gyfer 2015 a 300,000 ar gyfer 2016.

O'u cymharu â rhagolygon yr SCC ym mis Tachwedd 2010, mae'r rhagolygon ar gyfer y nifer sy'n hawlio budd-daliadau lawer uwch ar gyfer pob blwyddyn, sef cynnydd o 180,000 ar gyfer 2012, 360,000 ar gyfer 2013, 480,000 ar gyfer 2014, a 530,000 ar gyfer 2015.

Ffigur 3: Nifer sy'n hawlio budd-dal diweithdra (miliynau)



Ffynhonnell: Rhagolygon Economaidd a Chyllidol y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol a Rhagolygon Trysorlys EM ar gyfer economi'r DU

⁷ Ers mis Hydref 1996, dyma'r nifer sy'n hawlio Lwfans Ceisio Gwaith.


Mae Ffigur 4 yn dangos y rhagolygon ar gyfer diweithdra fel y'u mesurir gan gyfradd diweithdra'r Sefydliad Llafur Rhyngwladol⁸ (rhagolygon yr SCC yn unig; nid yw'r ffigurau hyn ar gael yn y rhagolygon annibynnol) rhwng 2012 a 2017.

Mae hyn yn dangos, ers mis Mawrth 2012, fod rhagolygon yr SCC wedi gostwng 0.7 pwynt canran ar gyfer 2012 a 0.4 pwynt canran ar gyfer 2013. Mae'r rhagolygon ar gyfer y blynyddoedd eraill wedi cynyddu 0.2, 0.8 ac 1.3 pwynt canran ar gyfer 2014, 2015 a 2016 yn ôl eu trefn.

O'u cymharu â rhagolygon yr SCC ym mis Tachwedd 2011, mae'r newidiadau'r un fath â'r uchod, ac nid oedd unrhyw wahaniaeth rhwng rhagolygon mis Tachwedd 2011 a rhagolygon mis Mawrth 2012.

O'u cymharu â rhagolygon yr SCC ym mis Tachwedd 2010, mae'r rhagolygon ar gyfer pob blwyddyn lawer uwch, ac yn dangos cynnydd o 0.3 pwynt canran ar gyfer 2012, 1 pwynt canran ar gyfer 2013 ac 1.5 pwynt canran ar gyfer 2014 ac 1.9 pwynt canran ar gyfer 2015.

Ffigur 4: Cyfradd diweithdra'r Sefydliad Llafur Rhyngwladol (canran o'r boblogaeth sy'n economaidd weithgar)



Ffynhonnell: Adroddiadau rhagolygon economaidd a chyllidol y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol

⁸ **Graddfa diweithdra'r Sefydliad Llafur Rhyngwladol** yw'r ganran o bobl economaidd weithgar sy'n ddi-waith yn ôl mesur y Sefydliad Llafur Rhyngwladol. Mae hyn yn cynnwys y rhai sy'n ddi-waith ond sy'n chwilio am swydd, neu'r rhai sy'n ddi-waith ond a fydd yn dechrau gweithio yn ystod y pythefnos nesaf. Caiff ei fesur gan arolwg o'r llafurlu'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ac mae'n ddull mwy cynhwysfawr o fesur diweithdra na'r nifer sy'n hawlio budd-dai diweithdra gan ei fod yn cynnwys pawb sy'n ddi-waith, yn hytrach na dim ond y rhai sy'n hawlio budd-daliadau.

Lefelau benthyca a dyled y sector

Mae Ffigur 5 yn dangos y rhagolygon ar gyfer lefelau benthyca net y sector cyhoeddus (PSNB)⁹ (rhagolygon yr SCC a'r rhagolygon annibynnol) rhwng 2012-13 a 2017-18.

Mae hyn yn dangos bod rhagolygon yr SCC, ers mis Mawrth 2012, wedi gostwng £12 biliwn ar gyfer 2012-13. Mae'r rhagolygon wedi cynyddu ar gyfer pob blwyddyn arall, sef £1 biliwn ar gyfer 2013-14, £13 biliwn ar gyfer 2014-15, £21 biliwn ar gyfer 2015-16 a £28 biliwn ar gyfer 2016-17. Dros y cyfnod rhwng 2012-13 a 2016-17 bydd PSNB £51 biliwn yn uwch na'r rhagolygon ym mis Mawrth 2012.

Mae'r rhagolygon annibynnol yn uwch na rhagolygon yr SCC ac yn dangos cynnydd o £19.6 biliwn ar gyfer 2012-13, £14.5 biliwn ar gyfer 2013-14, £10.8 biliwn ar gyfer 2014-15 a £10.5 biliwn ar gyfer 2015-16.


O'u cymharu â rhagolygon yr SCC ym mis Tachwedd 2011

mae rhagolygon yr SCC wedi cynyddu £40 biliwn ar gyfer 2012-13 ac £1 biliwn ar gyfer 2013-14. Mae'r rhagolygon wedi cynyddu ar gyfer pob blwyddyn arall, sef £9 biliwn ar gyfer 2014-15, £20 biliwn ar gyfer 2015-16, £25 biliwn ar gyfer 2015-16. Dros y cyfnod rhwng 2012 - 13 a 2016 - 17 bydd PSNB £13 biliwn yn uwch na'r rhagolygon ym mis Tachwedd 2011.

O'i gymharu â rhagolygon yr SCC ym mis Tachwedd 2012, mae'r PSNB wedi gostwng £11 biliwn ar gyfer 2012-13, ond wedi cynyddu ar gyfer pob blwyddyn arall, sef £39 biliwn ar gyfer 2013-14, £53 biliwn ar gyfer 2014-15 a £55 biliwn ar gyfer 2015-16. Dros y cyfnod rhwng 2012-13 a 2016-17 bydd PSNB £13 biliwn yn uwch na'r rhagolygon ym mis Tachwedd 2010.

⁹ **Lefelau benthycau net y sector cyhoeddus (PSNB)** yw cyfanswm gwariant y sector cyhoeddus (cyfredol a chyfalaf) llai'r holl incwm, ac mae'n ddull o fesur y sefyllfa gyllidol gyffredinol.

Ffigur 5: Lefelau benthyca net y sector cyhoeddus (£ biliwn)



Ffynhonnell: Rhagolygon Economaidd a Chyllidol y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol a Rhagolygon Trysorlys EM ar gyfer economi'r DU

Mae Ffigur 6 yn dangos y rhagolygon ar gyfer dyled net y sector cyhoeddus (PSND)¹⁰ (rhagolygon yr SCC yn unig gan nad yw'r ffigurau hyn ar gael yn y rhagolygon annibynnol) rhwng 2012-13 a 2017-18.

Mae hyn yn dangos bod rhagolygon yr SCC, ers mis Mawrth 2012, wedi cynyddu £27 biliwn ar gyfer 2012-13. Mae'r rhagolygon ar gyfer 2013-14 a 2014-15 wedi gostwng £2 biliwn a £3 biliwn, yn ôl eu trefn. Mae'r rhagolygon ar gyfer 2015-16 a 2016-17 wedi cynyddu £5 biliwn ac £19 biliwn, yn ôl eu trefn.


Dros y cyfnod rhwng 2012-13 a 2016-17 bydd PSNB £46 biliwn yn uwch na'r rhagolygon ym mis Mawrth 2012. Mae hyn yn dangos cymhareb o 79.2 y cant rhwng y ddyled a'r CMC yn 2016-17 (y rhagolwg ym mis Mawrth 2012 oedd 74.3 y cant).

O'i gymharu â rhagolygon y SCC ym mis Tachwedd 2011, mae'r rhagolygon ar gyfer PSND wedi cynyddu £4 biliwn ar gyfer 2012-13, ac yna wedi gostwng £30 biliwn ar gyfer 2013-14, £35 biliwn ar gyfer 2014-15, £28 biliwn ar gyfer 2015-16 a £17 biliwn ar gyfer 2016-17. Dros y cyfnod rhwng 2012-13 a 2016-17 bydd PSNB £106 biliwn yn is na'r rhagolygon ym mis Tachwedd 2011.

¹⁰ **Dyled net y sector cyhoeddus (PSND)** yw cyfanswm cronuss y gofyniad arian parod net yn y sector cyhoeddus, ac mae'n adlewyrchu baich dyled y sector cyhoeddus.

O'i gymharu â rhagolygon y SCC ym mis Tachwedd 2011, mae'r rhagolygon ar gyfer PSND lower uwch ac wedi cynyddu £29 biliwn ar gyfer 2012-13, £38 biliwn ar gyfer 2013-14, £78 biliwn ar gyfer 2014-15 a £122 biliwn ar gyfer 2015-16. Dros y cyfnod rhwng 2012-13 a 2015-16 bydd PSND £267 biliwn yn uwch na'r rhagolygon ym mis Tachwedd 2010. Mae hyn yn dangos cymhareb o 79.9 y cant rhwng y ddyled a'r CMC yn 2015-16 (y rhagolwg ym mis Tachwedd 2010 oedd 67.2 y cant).

Ffigur 6: Dyled net y sector cyhoeddus (£ biliwn)



Ffynhonnell: Adroddiadau rhagolygon economaidd a chyllidol y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol

Rhagor o wybodaeth

Mae rhagor o fanylion am y ffigurau ac esboniad o'r newidiadau yn y rhagolygon i'w cael yn y ddogfen lawr: **Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidol**, Economic and Fiscal Outlook [Saesneg yn unig], 5 Rhagfyr 2012

Am ragor o wybodaeth am ragolygon economaidd a chyllidol, cysylltwch â **Dr Eleanor Roy** (Eleanor.Roy@wales.gov.uk), y Gwasanaeth Ymchwil.

Y Gwasanaeth Ymchwil
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd CF99 1NA